



Adnabod a riportio troseddau yn erbyn pobl hŷn

Beth yw troseddau yn erbyn pobl hŷn?

Mae Llywodraeth Cymru yn diffinio 'pobl hŷn' fel unrhyw un dros 50 oed. Er nad oes diffiniad cyfreithiol o droseddau yn erbyn pobl hŷn, mae adroddiad Oedran Cyfiawnder Diverse Cymru wedi argymhell y canlynol: **Unrhyw drosedd lle mae pobl hŷn yn cael eu targedu'n benodol. Mae hyn yn cynnwys troseddau sydd wedi'u cymhell gan ragfarn neu gasineb tuag at bobl hŷn (oedraniaeth) ac mae'n cynnwys lle mae pobl hŷn yn cael eu targedu oherwydd tybiaeth eu bod yn fwy bregus.**

Mae troseddau yn erbyn pobl hŷn yn cynnwys, ond heb eu cyfyngu i:

- Sgamiau a masnachwyr twyllodrus
- Esgeulustod
- Troseddau treisgar
- Troseddu cyfeillio
- Bygythiadau a sarhau ar lafar
- Camdrin rhywiol
- Camdrin domestig
- Byrgleriaethau
- Ymddygiad gwrthgymdeithasol
- Fandaliaeth

Adnabod yr arwyddion

Gan fod cymaint o wahanol fathau o droseddau yn erbyn pobl hŷn, mae yna amrywiaeth eang o arwyddion. Mae'n bwysig deall mai arwyddion posib o gamdriniaeth yw'r rhai canlynol. Gallai ymddygiad ac anafiadau o'r mathau a restrir isod fod yn bresennol am resymau eraill, ac mae'r rhestr yn bell o fod yn gynhwysfawr.

Camdrin corfforol

- Briwiau, llosgiadau, cleisiau a sgriffiadau
- Anafiadau nad ydynt yn cyd-fynd â'r eglurhad amdanynt
- Anafiadau a chlwyfau mewn mannau cuddiedig
- Anafiadau mewn mannau gwarchoddedig, e.e. o dan y ceseiliau
- Anafiadau heb eu trin
- Tan- neu orddefnydd o feddyginiaethau

Camdrin seicolegol

- Gallai'r dioddefwr deimlo neu ymddangos yn isel, mewnbylg, ofnus, aflonydd, pryderus neu ymosodol
- Mae'r person hŷn yn teimlo neu'n ymddangos yn unig
- Mae newid annisgwyl neu heb eglurhad yn eu hwyliau neu'u hymddygiad

Camdrin ariannol

- Diffyg arian ar gyfer anghenion sylfaenol fel bwyd, gwers neu ddillad, er gwaethaf incwm digonol
- Arian wedi'i dynnu o gyfrifon banc person heb glurhad
- Diffyg gallu person i egluro beth sy'n digwydd i'w hincwm
- Eiddo, cyfriflenni banc neu ddogfennau eraill yn diflannu

Esgeulustod

- Dirywiad yn eu hymddangosiad neu hylendid personol
- Amgylchedd budr ac anniogel
- Brechau, briwiau a doluriau a cholli pwysau heb eglurhad
- Dim digon o fwyd, diod neu ofal meddygol
- Diffyg symbyliad cymdeithasol

Beth allwch chi ei wneud?

1. Cofnodi a riportio pob digwyddiad a throedd yn erbyn pobl hŷn i helpu i adnabod problemau a thargedu adnoddau.
2. Hyfforddi staff i gyfathrebu gydag a chefnogi pobl hŷn ac adnabod a riportio camdriniaeth bosibl.
3. Gweithio gyda mudiadau eraill i ddatblygu prosesau amlasiantaethol a rhannu gwybodaeth er mwyn mynd i'r afael â throeddau yn erbyn pobl hŷn a chefnogi'r rhai a effeithir ganddynt. Dylai hyn edrych ar opsiynau cyfiawnder troseddol a sifil, cyfiawnder adferol, cyfryngu, gofal cymdeithasol, tai, iechyd a llesiant, cefnogaeth a gwasanaethau grwpiau cymunedol a thrydydd sector.
4. Datblygu rhestr leol o fudiadau sy'n rhoi cefnogaeth i bobl hŷn. Dylai hyn gynnwys cwnsela, mynediad at ganolfannau dydd, cynlluniau dementia-gyfeillgar, cyfeillio, a gwasanaethau cyngor ac eiriolaeth cyflawn.
5. Ymgysylltu pobl hŷn yn natblygiad prosesau a chefnogaeth leol. Dylai ymgysylltu gynnwys dulliau wyneb yn wyneb hygyrch a chyswllt dros y teleffon.
6. Datblygu gwybodaeth hygyrch, syml a chlir i godi ymwybyddiaeth am droseddau yn erbyn pobl hŷn, prosesau riportio lleol a thaclo oedraniaeth.
7. Sicrhau bod pobl hŷn yn rhan o'u hachosion a sicrhau eu bod yn cael diweddariadau cynnydd rheolaidd.

Riportio troseddau yn erbyn pobl hŷn

Gall troseddau yn erbyn pobl hŷn fod ar sawl ffurf a gall gael effaith ddwys ar unrhyw un. Ni ddylai unrhyw un orfod mynd drwy hyn ar ei ben ei hun, beth bynnag yw'r sefyllfa. Mae gwahanol bobl eisiau canlyniadau gwahanol. Mae rhai pobl eisiau erlyn. Yr unig beth mae rhai eisiau ydi iddo stopio. Nid yw rhai eisiau ei riportio o gwbl, ond mae dyletswydd arnoch i riportio esgeulustod a niwed mewn sefyllfaoedd diogelu.

Gallwch riportio troseddau yn erbyn pobl hŷn i:

Heddlu: **999** (argyfwng) **101** (dim argyfwng)
Llinell gyngor Age Cymru: **08000 223 444**

Cymorth i Ddioddefwyr: **victimsupport.com** **080 8168 9111**
Llinell gymorth/cyngor Action on Elder Abuse: **080 8808 8141**

Am ragor o wybodaeth am yr help a chefnogaeth sydd ar gael neu i ddarllen adroddiad **Oedran Cyfiawnder**, ewch at:

diverse.org.uk/oedrancyfiawnder